**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1217
Ein cyf/Our ref EM/14657/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau

6 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr pellach dyddiedig 8 Rhagfyr ynghylch deiseb rhif P-06-1217 ynghylch agor canolfannau meddygol pwrpasol a chlinigau i bobl â COVID hir.

Yn unol â chanllawiau NICE, mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi datblygu gwasanaethau adsefydlu amlddisgyblaeth, integredig i bobl â COVID hir. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu asesiad integredig o symptomau ac anawsterau corfforol ac iechyd meddwl a rhaglen driniaeth neu gyngor yn ôl yr angen. Mae llwybrau atgyfeirio lleol, integredig rhwng gofal sylfaenol a chymunedol ac ymchwiliadau diagnostig, gwasanaethau adsefydlu, gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar waith ledled Cymru i bobl y mae arnynt eu hangen. Mae'r gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn cael eu harwain gan ymarferwyr meddygol cyffredinol ac mae gwasanaethau gofal eilaidd yn cael eu harwain gan feddyg neu feddyg ymgynghorol gyda'r sgiliau perthnasol.

Mae canllawiau NICE hefyd yn argymell rhannu gwybodaeth, sgiliau a hyfforddiant rhwng gwasanaethau i helpu ymarferwyr yn y gymuned i ddarparu asesiadau ac ymyriadau. Mae gan y GIG yng Nghymru grŵp Cymuned Ymarfer COVID hir, sy'n cynnwys arweinwyr o bob bwrdd iechyd sy'n cydweithio i safoni gofal a rhannu gwybodaeth a dysgu. Yn ogystal, mae'r Sefydliad Gwyddoniaeth Glinigol a Thechnoleg (ICST) wedi datblygu a chyflwyno canllaw digidol COVID hir i ddarparu addysg, hyfforddiant ac i grynhoi ymchwil newydd i helpu gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru i gynyddu eu harbenigedd a'u sgiliau wrth drin COVID hir.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y crybwyllais yn fy llythyr blaenorol a anfonwyd atoch ym mis Hydref, dros yr haf cyhoeddais becyn o £5m i gefnogi'r Rhaglen Adferiad, sy'n cefnogi'r rhai sy'n dioddef effeithiau parhaus yn sgil haint COVID-19. Gofynnwyd i'm swyddogion adolygu'r rhaglen hon bob chwe mis ac rydym yn disgwyl cael adroddiadau oddi wrth fyrddau iechyd ar eu gwasanaethau COVID hir ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Rydym hefyd wedi gofyn i fyrddau iechyd ddarparu eu hargymhellion ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol, ac mae'n dal yn allweddol bod ein gwasanaethau'n gallu newid ac addasu yn seiliedig ar ddysgu o brofiad a'r ymchwil a gwerthuso diweddaraf.

Mae rôl ymchwil yn hollbwysig wrth lywio triniaethau a therapïau, yn ogystal â gwella gwasanaethau i'r rhai sy'n dioddef o COVID hir. Trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag arianwyr ymchwil y DU, sef y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), sydd wedi ariannu 19 o astudiaethau yn 2020 a 2021 ar COVID hir gan gynnwys astudiaethau imiwnolegol, gwerthuso therapïau ac offer hunan-gymorth. Ym mis Tachwedd, cyfarfu holl ymchwilwyr y 19 o astudiaethau i rannu gwybodaeth am yr ymchwil sy'n mynd rhagddi, ac roedd NIHR a'r gwledydd datganoledig yn bresennol. Caiff yr allbynnau eu rhannu â chydweithwyr polisi ac ymarfer yn ystod 2022-23.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services